**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Elin

**Tynnu yn ôl Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (Diwygio) 2019**

Hoffwn eich hysbysu bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu tynnu yn ôl Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (Diwygio) 2019 a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Tachwedd.

Fel rheol byddwn wedi llofnodi'r Gorchymyn yn fuan ar ôl y Cyfarfod Llawn. Yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, fodd bynnag, sylwyd nad oedd Erthygl 1(2) wedi'i chwblhau ac o'r herwydd nid oedd yr Offeryn a gymeradwywyd gan y Cynulliad yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai'n ei alluogi i ddod i rym.

Gwnaeth fy swyddogion geisio gweld a fyddai modd cynnwys yr wybodaeth hon nawr, neu a fyddai'n bosibl cyflawni'r cam cychwyn drwy ddull arall. Daethpwyd i'r casgliad, fodd bynnag, fod y camgymeriad yn golygu na all yr offeryn ddod i rym.

Yn anffodus felly yr unig ateb yw tynnu'r offeryn yn ôl a'i ailosod ar ôl toriad y Nadolig. Golyga hyn y bydd yn rhaid i'r broses graffu ddechrau o'r newydd a bydd angen cynnal dadl arall yn y Cyfarfod Llawn er mwyn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Offeryn Statudol newydd. Yn ffodus nid yw'r newid cyfreithiol yr ydym yn ceisio ei gyflawni yn rhywbeth y mae angen ei wneud ar fyrder.

Rydym bellach wedi cyflwyno camau ychwanegol o fewn ein prosesau gwirio mewnol er mwyn ceisio osgoi sefyllfa o'r fath ar gyfer Offeryn Statudol arall, a byddwn yn rhannu'r gwersi yr ydym wedi'u dysgu o'r profiad hwn o fewn y timau sy'n paratoi Is-Ddeddfwriaeth.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra i'r Cynulliad Cenedlaethol a fydd yn deillio o'r angen i ystyried y Gorchymyn unwaith eto, er y bydd ar ffurf ddiwygiedig ac am fethu â gwneud yr OS yn unol â chymeradwyaeth y Cynulliad. Gobeithiaf, fodd bynnag, y byddwch yn cytuno mai dyma'r ateb mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.